# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 22 Mawrth 2021

## SL(5)776 – Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996"), a pharagraff 15 o Atodlen 1 iddi. Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") mewn perthynas â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

Yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996, mae swyddogaethau corff llywodraethu ysgol a gynhelir o dan Ddeddf 2018 yn swyddogaethau sydd gan awdurdod lleol mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion ("UCD"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 22 o Reoliadau 2014 i ddarparu bod yn rhaid i awdurdod lleol ddirprwyo'r swyddogaethau penodedig hynny i bwyllgor rheoli UCD.

Mae paragraff 4.12 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi:

*"Yr effaith fwriadedig yw y bydd pwyllgorau rheoli yn arfer, mewn perthynas ag UCD, swyddogaethau corff llywodraethu o dan y Ddeddf [2018]."*

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2021.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Addysg 1996
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 01 Medi 2021

## SL(5)781 – Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012 ("y prif Reoliadau") i wneud darpariaeth ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Iechyd Arbennig a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru i fod yn aelodau o Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Gwneir y Rheoliadau fel rhan o gyfres o ddeddfwriaeth sydd â'r bwriad o gefnogi lansio Awdurdod Iechyd Arbennig newydd o'r enw Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC).

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r diffiniad o "prif swyddogion" yn y prif Reoliadau i gynnwys prif swyddog neu brif weithredwr Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru. Mae rheoliad 2 hefyd yn diwygio'r diffiniad o "cynrychiolydd enwebedig" yn y prif Reoliadau i gynnwys swyddog enwebedig i bob Awdurdod Iechyd Arbennig.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 7 o'r prif Reoliadau i gynnwys yn rheoliad 7(2) gyfeiriad at brif swyddog neu brif weithredwr Awdurdod Iechyd Arbennig, ac yn rheoliad 7(3) a (4) gyfeiriad at swyddog-aelod o Awdurdod Iechyd Arbennig y prif swyddog neu'r prif weithredwr.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2021

## SL(5)784 – Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 ("Rheoliadau 2020").

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn dyddiad dod i ben Rheoliadau 2020 hyd at 30 Medi 2021 er mwyn ymateb i'r pandemig COVID-19.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
**Fe'u gwnaed ar:** 05 Mawrth 2021
**Fe'u gosodwyd ar:** 08 Mawrth 2021
**Yn dod i rym ar:** 30 Mawrth 2021

## SL(5)785 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GDCG").

Mae erthygl 3 o'r GDCG, ac Atodlen 2 iddo, yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygiadau penodol. Pan roddir yr hawliau hynny, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff A.2(c) o Ran 3A o Atodlen 2 i'r GDCG (adeiladu dros dro a newid defnydd at ddibenion argyfwng iechyd y cyhoedd). Pan fo paragraff A.2(c) yn gymwys, mae'r amserlen ar gyfer symud y datblygiad ymaith wedi ei diwygio fel bod y cyfnod wedi ei estyn o ddeuddeng mis i ddeunaw mis ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau cyn 10 Ebrill 2021. Ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau ar 10 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny, mae'r cyfnod yn parhau i fod yn ddeuddeng mis. Ym mhob achos, mae'r amser yn dechrau o'r dyddiad y dechreuodd y datblygu.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff A.1(b) o Ran 12A o Atodlen 2 i'r GDCG (datblygu brys gan awdurdodau lleol). Pan fo paragraff A.1(b) yn gymwys, mae'r amserlen ar gyfer symud y datblygiad ymaith wedi ei diwygio fel bod y cyfnod wedi ei estyn o ddeuddeng mis i ddeunaw mis ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau cyn 30 Mawrth 2021. Ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau ar 30 Mawrth 2021 neu ar ôl hynny, mae'r cyfnod yn parhau i fod yn ddeuddeng mis. Ym mhob achos, mae'r amser yn dechrau o'r dyddiad y dechreuodd y datblygu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
**Fe'u gwnaed ar:** 04 Mawrth 2021
**Fe'u gosodwyd ar:** 08 Mawrth 2021
**Yn dod i rym ar:** 29 Mawrth 2021